Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod

# Aled Emyr






## Crynodeb:

Mae teyrnasiad y Brenin Peredur dan fygythiad, ac mae'r tensiwn rhwng y Pedair Ynys ar fin ffrwydro. Daw arglwyddi'r ynysoedd draw i'r brifddinas ar Ynys Wen gyda chynllun i ddisodli'r brenin, sy'n rhoi bywyd Siwan, ei ferch, mewn perygl. Mae'n rhaid iddi aberthu ei breuddwydion a dianc o Borth Wen er mwyn ceisio aros yn ddiogel.

Wrth i'r Pedair Ynys gweryla â'i gilydd, mae Enid, merch Arglwydd Ynys Afarus yn cychwyn ar daith beryglus i geisio dod o hyd i'w brawd Pedr, sydd wedi ei gipio o'i ystafell yng nghanol nos. Gyda chymorth y dewin Gwydion, mae Enid yn darganfod cyfrinachau o'r gorffennol sy'n bygwth dinistrio'r Pedair Ynys am byth.

## Bywgraffiad

Magwyd Aled Emyr yn y Felinheli. Graddiodd mewn cerddoriaeth yn Llundain cyn dychwelyd i'r Felinheli i ddilyn ei freuddwyd i gael ysgrifennu. 'Trigo' yw ei nofel gyntaf.

### Rho ychydig o dy gefndir inni – magwraeth, addysg...

Ges i fy magu yn Y Felinheli. Mynychais Ysgol Gynradd Y Felinheli cyn mynd i Ysgol Syr Hugh yng Nghaernarfon. Roedd gan sawl un y teulu ddiddordeb mewn cerddoriaeth ac ar ôl i mi gael gwersi piano a gitar yn blentyn, mi es i Lundain i'r London College of Music i astudio cerddoriaeth gyfoes. Ar ôl tair mlynedd yno, dychwelais i'r Felinheli i weithio mewn ysgolion, ond roeddwn yn dal i fwynhau perfformio a chyfansoddi cerddoriaeth yn fy amser hamdden. Yn y cyfnod yma dechreuais sgwennu o ddifrif.

### Beth yw dy ddylanwadau nawr?

Dros y cyfnod clo nes i ddarllen *A Game of Thrones* gan George R.R. Martin a *The Lord of The Rings* gan J.R.R Tolkien, felly mae llyfrau ffantasi yn dal i fod yn ddylanwad mawr arna i. Mae cyfresi teledu fel 'Breaking Bad' wedi fy ysgogi i orffen bob pennod yn gryf fel bod y darllenwr yn ysu i ddarllen y bennod nesaf.

### Dywed ychydig am Trigo, o ble ddaeth yr ysbrydoliaeth...

Mae *Trigo* yn nofel ffantasïol yn ymwneud â dial a chyfiawnder, llygredd a phŵer, unigrwydd a chyfeillgarwch.

Cefais yr ysbrydoliaeth gan chwedlau'r Mabinogi. Dwi'n gobeithio bydd y darllenwyr yn mwynhau'r stori epig llawn antur ac yn gallu uniaethu efo rhai o'r cymeriadau unigryw a gwahanol sy'n byw ar y Pedair Ynys a thu hwnt.

### Beth yw dy hoff genres darllen, a pha lyfrau wyt yn darllen ar hyn o bryd?

Dwi'n hoff iawn o gyfres Philip Kerr am dditectif yn yr Almaen adeg y Natsïaid. *The Dice Man* gan Luke Rhinehart a *The Hobbit* gan J.R.R Tolkien yw fy hoff lyfrau. Dwi newydd ddechrau darllen *Y Cylch* gan Gareth Evans-Jones ac yn mwynhau'n arw.

### Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

Wrth ddarllen nofel mae eich dychymyg yn dod â'r cymeriadau a'r lleoliadau'n fyw. Dyna dwi wedi hoffi am ddarllen erioed – gallu gweld y cymeriadau yn fy mhen. Mae'n wahanol iawn i wylio ffilm. Dwi ddim yn cael yr un pleser o wylio ffilm ar ôl darllen y llyfr.

y Lolfa
www.ylolfa.com

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru